



barcud

Disgrifiad Swydd

Swyddog Budd-daliadau Lles (Swyddog Cynnal Tenantiaethau)

Mae'r holl feini prawf yn hanfodol oni nodir fel arall

Yn atebol i'r canlynol: Uwch-swyddog Cynnal (Y Dwyrain)

Yn gyfrifol am y canlynol: Amherthnasol

Diben cyffredinol y swydd:

Darparu gwasanaeth Cynnal Tenantiaethau o safon, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n galluogi Barcud i gyflawni ei amcanion busnes a diwallu anghenion ei denantiaid.

Cyfrifoldebau Allweddol –

Cynnal tenantiaethau:

- Darparu gwasanaeth Cynnal Tenantiaethau proffesiynol a chynhwysfawr o safon, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n rhoi pwys arbennig ar ofal cwsmer yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Gymdeithas.
- Darparu cymorth i denantiaid sy'n ei chael yn anodd cynnal eu tenantiaethau'n ariannol, gan nodi hawliau cymwys o ran budd-daliadau lles er mwyn cynyddu incwm. Bydd hynny'n cynnwys cynnal ymweliadau a chyfeirio tenantiaid at sefydliadau allanol i gael help pellach.
- Chwilio am gyfleoedd i wella gwytnwch tenantiaid, a rhoi'r cyfleoedd hynny ar waith, a fydd yn cynnwys defnyddio partneriaethau allanol.
- Cynghori tenantiaid fel y bo angen ynghylch y budd-daliadau lles sydd ar gael iddynt, a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â nhw'n gyson am newidiadau i ddeddfwriaeth.
- Cynorthwyo tenantiaid fel y bo angen i wneud cais am fudd-daliadau lles.
- Sicrhau bod cofnodion ynghylch budd-daliadau lles, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau, yn cael eu diweddarau.
- Cynorthwyo Swyddogion Tai fel y bo angen gyda thenantiaethau newydd er mwyn sicrhau bod incwm darpar denantiaid yn cael ei gynyddu a bod rhenti'n fforddiadwy.
- Meithrin perthynas gref â phartneriaid Barcud ac asiantaethau allanol, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau, a diweddarau gwybodaeth fel y bo angen.
- Annog tenantiaid i lenwi ffurflenni arolygon Cynnal.

- Cynorthwyo gydag adolygiadau o'r Strategaeth Diwygio Budd-daliadau Lles.
- Cynorthwyo tenantiaid a grwpiau cymunedol o fewn Barcud i gael gafael ar gyllid, cymorth ariannol a budd-daliadau lles, yn enwedig drwy weithio ochr yn ochr â'r Swyddogion Tai.
- Cyfrannu at ddatblygu strategaethau a chynlluniau gweithredu ar gyfer adennill incwm.
- Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu a gweithredu prosesau, systemau a gweithdrefnau Cynnal Tenantiaethau o fewn system TG Barcud.
- Codi ymwybyddiaeth o fentrau Cynnal Tenantiaethau, gan gynnwys strategaethau cynyddu incwm.
- Mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol fel y bo angen.
- Cynorthwyo Tîm Cynnal – Y Gorllewin yn ystod cyfnodau prysur.
- Dirprwyo dros Uwch-swyddog Cynnal pan fo angen.

Pobl:

- Hybu diwylliant o gyflawni'n dda, sy'n hybu gwelliant parhaus ac arbedion effeithlonrwydd.
- Rhannu gwybodaeth am flaenoriaethau, cynlluniau, gweledigaeth ac amcanion y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol gan fodloni'r safonau gwasanaeth a'r targedau a gytunwyd.

Corfforaethol:

- Hybu, datblygu a rheoli partneriaethau effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.
- Hybu mentrau iechyd a lles ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Darparu gwasanaeth ardderchog i bob cwsmer mewnol ac allanol.
- Gweithio'n unol â pholisiau'r Gymdeithas ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob amser ac ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.
- Sicrhau bod y Gymdeithas a'i gweithwyr yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a rheoleiddiol ynghyd ag arfer gorau.
- Ym mhob agwedd ar waith y Gymdeithas, hyrwyddo systemau cyfathrebu effeithiol, rhagoriaeth o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, a ffocws ar wella'n barhaus.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gallai fod yn rhesymol gofyn i ddeiliad y swydd eu cyflawni.

Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gyflawn, ac o gofio y bydd gofynion, deddfwriaeth a rheoliadau'n newid, efallai y bydd angen adolygu a diwygio'r dyletswyddau fel y bernir yn rhesymol ac yn briodol.



barcud

Manyleb Person

Swyddog Budd-daliadau (Swyddog Cynnal Tenantiaethau)

Mae'r fanyleb person hon yn nodi'r profiad a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swydd 'Swyddog Cynnal Tenantiaethau – Y Dwyrain' yn Barcud. Mae'r holl sgiliau a'r holl brofiad yn hanfodol oni nodir yn benodol eu bod yn ddymunol (D).

Cymwysterau

- Addysg Safon Uwch neu lefel gyfatebol, gan gynnwys cymhwyster TGAU mewn Saesneg (laith).
- Gradd mewn disgyblaeth berthnasol, neu brofiad proffesiynol cyfatebol.
- Cymhwyster proffesiynol perthnasol cydnabyddedig, yn enwedig gan y Sefydliad Tai Siartredig. (D)
- Trwydded yrru lawn.

Profiad

- Profiad o ddarparu gwasanaeth Rheoli Tai o safon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Profiad o ddarparu arweiniad a chyngor i amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys grwpiau o bobl agored i niwed.
- Profiad o weithio'n agos gyda chymunedau er mwyn eu gwneud yn fwy cydnerth.
- Profiad o gynghori unigolion ynghylch materion sy'n ymwneud â Chynnal Tenantiaethau. (D)
- Profiad o godi ymwybyddiaeth o fentrau.
- Profiad o feithrin perthynas gref ag ystod o randdeiliaid allanol.
- Profiad o gadw cofnodion manwl a chywir.
- Profiad o weithio yn y sector cyhoeddus neu mewn Cymdeithas Dai.

Sgiliau / Gwybodaeth

- Dealltwriaeth dda o rychwant gwasanaethau Cynnal Tenantiaethau a'r heriau cyffredin sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth hwn.
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth gyfredol a pholisïau cenedlaethol sy'n ymwneud â Chynnal Tenantiaethau.
- Parodrwydd i ddysgu Cymraeg i lefel 3 y Gymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE) cyn pen 2 flynedd (os nad yw'n gallu siarad Cymraeg yn barod).
- Ymrwymiad cryf i ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar bobl.

- Y gallu i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.
- Sgiliau cadarn o ran trafod rhifau, rhesymu a chyfathrebu'n ysgrifenedig.
- Y gallu i reoli, datblygu a gweithredu prosesau, gweithdrefnau a systemau sy'n ymwneud ag incwm a rheoli a chynnal tenantiaethau.
- Y gallu i osod targedau perfformiad priodol a heriol iddo'i hun.